Ffeithlen Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed

Mae'r Ffeithlen hon yn ymdrin â chwynion am y Gwasanaeth Diogelu Oedolion, y cyfeirir ato weithiau fel Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) rhag cael eu Cam-drin. Dylid darllen y ffeithlen ochr yn ochr â Pholisi Cwynion – y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae amryw o sefydliadau, gan gynnwys yr Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol (y Cyngor), yn gyfrifol am y gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer Diogelu Oedolion. Mae'r ffeithlen hon yn ymdrin â chwynion ynghylch y rhan y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei chwarae.

Yn y lle cyntaf, dylai cwyn am y gofal a gaiff oedolyn sy'n agored i niwed gael ei chyflwyno i'r Cyngor a'i hystyried o dan weithdrefn gwynion statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gall yr Awdurdod wneud y canlynol:

- ystyried cwyn fod oedolyn sy'n agored i niwed wedi dioddef anghyfiawnder o ganlyniad i ddiffyg gwasanaeth neu ddiffyg gweinyddol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- ystyried cwyn ynghylch y modd y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymdrin â gweithdrefn gwynion statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, neu unrhyw gam ohoni.
- ystyried cwyn fod y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi methu â gweithredu argymhellion y swyddog ymchwilio yn ystod Cam 2 y weithdrefn gwynion statudol, neu argymhellion y panel adolygu yn ystod Cam 3 y weithdrefn honno.

Ni all y Weithdrefn Gwynion:

- ymchwilio'n uniongyrchol i gwynion ynghylch cam-drin. Cyfrifoldeb y cyrff sy'n ymwneud â Diogelu Oedolion yw hynny.

- ystyried unrhyw faterion sy'n ymwneud ag atal rhywun o'i swydd, disgyblu neu unrhyw fater personél arall sy'n ymwneud â staff y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:
http://cymru.gov.uk/topics/health/socialcare/vulnerableadults/?skip=1&lang=cy

Efallai yr hoffech ystyried cysylltu â'r elusennau canlynol am gyngor:
Age Concern: gellir cysylltu â'r elusen hon drwy ffonio **0800 009966** neu drwy wefan www.accymru.org.uk

Mind Cymru: mae'r elusen hon yn darparu cymorth i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Gallwch gysylltu â nhw drwy ffonio **0845 766 0163** neu drwy'r rhyngrwyd http://www.mind.org.uk/mind_cymru/landing/mind_link_cymru

MENCAP Cymru: mae'r elusen hon yn darparu cyngor, gwybodaeth a chymorth ar unrhyw fater sy'n ymwneud ag anawsterau dysgu. Gallwch gysylltu â nhw drwy ffonio **0808 808 1111** neu drwy'r rhyngrwyd, http://www.mencap.org.uk/wales/cymraeg

ANABLEDD CYMRU: hon yw'r gymdeithas genedlaethol ar gyfer mudiadau i bobl anabl yng Nghymru, ac mae'n gwneud ei gorau glas i sicrhau hawliau, cydraddoldeb ac annibyniaeth pobl anabl. Gallwch gysylltu â nhw drwy ffonio **029 2088 7325** neu drwy'r rhyngrwyd, www.disabilitywales.org.uk

RNIB: mae'r elusen hon yn darparu gwybodaeth, cymorth a chyngor i bobl sydd wedi colli'u golwg. Gallwch gysylltu â nhw drwy ffonio **029 2045 0440** neu drwy'r rhyngrwyd, www.cymruevents@rnib.org.uk

RNID: mae'r elusen hon yn darparu gwybodaeth, cymorth a chyfleusterau cyfathrebu i bobl fyddar neu bobl sy'n drwm eu clyw. Gallwch gysylltu â nhw drwy ffonio **0808 808 0123 (rhadffon) neu 0808 808 9000 (ffôn destun rad ac am ddim)** neu drwy'r rhyngrwyd www.actiononhearingloss.org.uk

SENSE Cymru: mae'r elusen hon yn cynorthwyo pobl ddall a byddar ac yn ymgyrchu drostynt. Gallwch gysylltu â nhw drwy ffonio **0845 127 0090** neu drwy'r rhyngrwyd, www.sense.org.uk